RSPCA

COMPASSIONATE CLASS

# Ai chi fydd RSPCA's Most Compassionate Class?

## GWEITHGAREDD GOSOD Y CEFNDIR

### NODAU'R GWEITHGAREDD

- I fedru egluro ystyr tosturi a pham y dylem ddangos tosturi tuag at bob anifail
- I nodi anghenion anifeiliaid
- I gymharu anghenion gwahanol anifeiliaid

### CWESTIYNAU ALLWEDDOL

- Beth yw tosturi?
- Beth mae anifeiliaid fferm angen i gadw'n hapus ac iach?
- A yw anghenion pob anifail yr un fath?

## ADNODDAU

- Fideo cyflwyniadol
- Labeli gludiog neu nodiadau gludiog
- Dalenni gwag o bapur A3
- Sleidiau PDF rhyngweithiol 'Gosod yr Olygfa' i dywys disgyblion trwy'r gweithgareddau

Mae'r adnodd hwn wedi'i anelu'n bennaf at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2. Oherwydd natur y pynciau sy'n cael eu trafod yn y rhaglen Compassionate Class, mae'n bwysig ystyried sut allai plant gwahanol ymateb i'r trafodaethau. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â chreu amgylchedd addysgu a dysgu diogel, darllenwch y canllawiau ar dudalen chwech i wyth y ddogfen Trosolwg Athro. Mae modd lawrlwytho'r ddogfen yma ar: **rspca.org.uk/ccresources.** I gael gwybodaeth ar sut i addasu Dosbarth Tosturiol i gefnogi disgyblion ag SEND, gweler y canllawiau ar dudalen naw a deg y ddogfen hon a thudalennau wyth a naw o'r Trosolwg Athrawon.

Hawlfraint © RSPCA 2020 Cedwir pob hawl.

# Ai chi fydd RSPCA's Most Compassionate Class?

## SYMBYLIAD

5-10 MUNUD

**Ffilm fer am dosturi tuag at anifeiliaid**

CHWARAE FFILM



Gofynnwch i'r disgyblion beth yw tosturi yn eu barn nhw, a sut mae modd dangos tosturi tuag at anifeiliaid. Cofnodwch eu meddyliau yn y blwch ar sleid dau, neu argraffwch y sleid fel bod modd i'r disgyblion ysgrifennu arno. Gallwch chi ddefnyddio hyn fel asesiad gwaelodlin i gael syniad o ddealltwriaeth gychwynnol y disgyblion ac rydym yn eich annog i ailymweld â'r syniadau hyn ar ddiwedd y sesiwn.

Dangos y ffilm ragarweiniol RSPCA Compassionate Class, defnyddio sleid tri o'r sleidiau cysylltiol ar gyfer disgyblion.

Wrth iddynt wylio gofynnwch i'r plant wneud nodyn o unrhyw beth maent yn ei ddysgu am beth mae anifeiliaid angen i fod yn iach a hapus, a sut mae'r RSPCA yn helpu.

SLEID 2-3

Hawlfraint © RSPCA 2020 Cedwir pob hawl.

# Ai chi fydd RSPCA's Most Compassionate Class?

## BETH YW TOSTURI?

5-10 MUNUD

Dangoswch sleid pedwar ac ailadrodd neges y ffilm trwy drafod y diffiniad canlynol o dosturi gyda'r dosbarth:

**Mae bod yn dosturiol yn golygu peidio â cham-drin pobl nac anifeiliaid, a'u helpu os ydynt yn edrych fel eu bod yn dioddef neu wedi brifo. Mae pobl dosturiol yn gofalu am ei gilydd i sicrhau bod eu bywydau mor hapus ac iach â phosibl.**

Esboniwch fod yna rai pethau mae anifeiliaid eu hangen i fyw bywydau iach, hapus, y mae angen i ni fel bodau dynol ddysgu er mwyn bod yn dosturiol. Defnyddiwch yr enghreifftiau canlynol i arddangos hyn:

- Un o anghenion cŵn yw cael digon o ymarfer corff rheolaidd, felly bydd cael ci anwes yn golygu y bydd angen ei gymryd allan am dro unwaith neu ddwywaith pob dydd
- Gall gadael sbwriel fod yn niweidiol i anifeiliaid gwyllt, felly dylem gael gwared ar sbwriel yn ofalus ac ailgylchu ble fo'n bosibl

Anogwch blant mwy medrus i feddwl am enghreifftiau eraill sy'n berthnasol i wahanol anifeiliaid.

SLEID 4

Hawlfraint © RSPCA 2020 Cedwir pob hawl.

COMPASSIONATE CLASS

# Ai chi fydd RSPCA's Most Compassionate Class?

## TASG

10-15 MUNUD

**Beth mae anifeiliaid ei angen?**

Mae'r holl weithgareddau Compassionate Class yn helpu plant i ddysgu ac archwilio beth mae anifeiliaid angen i gadw'n iach a hapus. Mae hyn yn wahanol i bob anifail ond maent wedi eu grwpio yn pump angen allweddol fel isod.

I gyflwyno'r anghenion anifeiliaid hyn, dangoswch sleid pump a gofyn i'r disgyblion beth maent yn meddwl y gallai'r anghenion olygu ar gyfer gwahanol fathau o anifeiliaid. Anogwch nhw i edrych ar y nodiadau a wnaethant tra'n gwylio'r fideo i helpu. Wedi trafodaeth grŵp bychan cryno, rholiwch eich llygoden dan bob un o'r anghenion anifeiliaid i ddatgelu'r diffiniad.

Os ydych chi'n gweithio gyda grŵp gallu is neu grwpiau iau, gallech ddarllen trwy'r diffiniadau fel grŵp a gofyn i'r plant feddwl os yw'r anghenion lles yn berthnasol iddynt fel bodau dynol.

**1. Amgylchedd**

Mae anifeiliaid angen lle ble gallant orffwys a chysgu'n ddiogel gyda digon o le i symud o gwmpas, a mynediad at le i wneud ymarfer corff.

**2. Bwyd a dŵr**

Yn union fel pobl, mae anifeiliaid angen y diet cywir. Mae anifeiliaid angen mynediad at ddŵr glân ffres a'r math a swm cywir o fwyd i'w cadw'n ffit ac iach.

**3. Ymddygiad naturiol**

Dylai anifeiliaid allu ymddwyn yn naturiol. Os ydyn nhw'n hoffi rhedeg, neidio, twrio, hedfan neu lithro, dylent gael lle ac amgylchedd i wneud hynny!

**4. Cwmni**

Mae rhai anifeiliaid yn hoffi cwmni, ac efallai y byddant hyd yn oed yn unig os cânt eu gadael ar eu pennau eu hunain. Mae anifeiliaid eraill yn hoffi byw ar eu pennau eu hunain, ac felly'n byw'n annibynnol yn y gwyllt neu'n cael eu cadw ar eu pennau eu hunain os yn anifail anwes neu anifail fferm.

SLEID 5

**5. Diogelu rhag niwed**

Dylid gwarchod anifeiliaid rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd. Mae anifeiliaid anwes a fferm angen gwiriadau rheolaidd gan filfeddyg. Mae anifeiliaid gwyllt angen i ni warchod eu cynefinoedd a gadael llonydd iddynt gymaint â phosibl.

Hawlfraint © RSPCA 2020 Cedwir pob hawl.

COMPASSIONATE CLASS

# Ai chi fydd RSPCA's Most Compassionate Class?

## TRAFODAETH

15-20 MUNUD

Defnyddiwch rai o'r cwestiynau isod i archwilio'r diffiniad o dosturi ac anghenion anifeiliaid.

Os ydych chi'n gweithio gyda grwpiau gallu is neu iau, gallech ddefnyddio **gêm ryngweithiol ar-lein** i gymharu anghenion bodau dynol a gwahanol anifeiliaid.

### CWESTIYNAU PROCIO

- Sut allwn ni fod yn dosturiol tuag at anifeiliaid?
- Pam mae'n bwysig dangos tosturi tuag at anifeiliaid?
- Wyt ti'n gwybod sut brofiad ydi bod yn anifail?
- Ym mha ffyrdd mae anifeiliaid yn wahanol i fodau dynol a sut maent yr un fath?
- Beth mae bodau dynol angen i fod yn hapus ac iach? Ydi hyn yr un fath i bawb?
- Beth mae anifeiliaid angen i fod yn hapus ac iach? A yw anghenion pob anifail yr un fath?
- A yw anifeiliaid angen ffrindiau?
- A yw'n iawn i hyfforddi anifeiliaid i wneud pethau na fyddent yn ei wneud yn naturiol?



Hawlfraint © RSPCA 2020 Cedwir pob hawl.

RSPCA

COMPASSIONATE CLASS

# Ai chi fydd RSPCA's Most Compassionate Class

## TASG

20-30 MUNUD

Dangoswch sleid chwech a saith gyda'r tabl yn dangos anghenion anifeiliaid anwes, anifeiliaid fferm ac anifeiliaid gwyllt penodol.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau llai, a rhoi ychydig funudau iddynt drafod anghenion yr anifeiliaid yn y tabl, gan gymharu beth sy'n wahanol ac yn debyg rhwng anifail anwes, fferm neu wyllt.

Os ydych chi'n gweithio gyda phlant gallu is neu iau, gallech gymharu'r wybodaeth yn y tabl fel dosbarth cyfan.

Dewch â'r dosbarth yn ôl ynghyd a chrynhoi trwy esbonio'r gwahaniaeth allweddol:

- Mae anifeiliaid anwes ac anifeiliaid fferm yn dibynnu'n gyfan gwbl ar eu perchnogion i fodloni eu hanghenion
- Gall anifeiliaid gwyllt fodloni eu hanghenion eu hunain ac mae'n well i ni beidio â tharfu arnynt o gwbl

I gyfnerthu dysgu'r plant o ran anghenion anifeiliaid, chwaraewch y Gêm Dyfalu Anifeiliaid, a amlinellir ar y dudalen nesaf.

SLEID 6-7

Hawlfraint © RSPCA 2020 Cedwir pob hawl.

RSPCA

COMPASSIONATE CLASS

# Ai chi fydd RSPCA's Most Compassionate Class?

## GÊM DYFALU ANIFEILIAID

### CYFARWYDDIADAU

1. Defnyddiwch y tabl uchod neu ewch i **dudalennau cyngor a lles yr RSPCA** am ragor o wybodaeth ar anghenion mathau gwahanol o anifeiliaid. Efallai yr hoffech chi ofyn i'ch dosbarth dreulio amser yn ymchwilio cyn cwblhau'r gweithgaredd hwn, yn arbennig os ydych chi'n gweithio gyda phlant gallu is neu iau
2. Heriwch y plant i ddewis unrhyw anifail a'i nodi i lawr ar label gludiog neu nodyn gludiog. Heb adael i'r person arall ei weld, dylent ludo'r label ar gefn neu dalcen rhywun arall
3. Yna mae'r plant yn symud o amgylch y lle i ganfod pa anifail cudd ydyn nhw trwy holi cwestiynau am eu hanghenion, e.e. Ydw i'n byw ar ben fy hun neu gydag eraill? Beth ydw i angen ei fwyta? Ydw i angen bodau dynol i helpu bodloni fy anghenion?
4. Crynhowch trwy drafod os oes gan bob anifail yr un anghenion a chymharu rhai o'r cwestiynau ac atebion a ddefnyddiont i ganfod eu hanifail

## CRYNHOI'R SESIWN

5 MUNUD

Gwahoddwch y disgyblion i ailddarllen eu hymatebion cychwynnol ar sleid dau. Gofynnwch i'r bob disgybl feddwl am syniad neu gwestiwn o'r sesiwn yr hoffent ei archwilio ymhellach, neu oedd yn rhywbeth newydd a ganfyddont heddiw. Anogwch y diglyblion i rhannu'r rhain i weddill y dosbarth, yna ychwanegwch hwy at y nodiadau ar sleid dau.

SLEID 6-7

SLEID 2

Hawlfraint © RSPCA 2020 Cedwir pob hawl.

# Ai chi fydd RSPCA's Most Compassionate Class?

## ADNODDAU ESTYNIAD

Os hoffech chi fynd â'r dysgu o'r sesiwn gosod y cefndir hwn ymhellach cyn i'ch dosbarth symud ymlaen i'w gweithgaredd Canfyddiad cyntaf, gallech roi cynnig ar yr estyniadau isod.

- Mae gan **wefan yr RSPCA education** gwisiau a heriau rhyngweithiol hwyliog a fydd yn helpu plant i ddysgu am anghenion anifeiliaid. Gallai plant ddewis anifail a chreu poster i gyfathrebu anghenion yr anifail penodol hwn gyda dosbarthiadau eraill
- Yn annibynnol neu mewn grwpiau llai, gallai disgyblion gynllunio rhywbeth sy'n cynrychioli pwysigrwydd dangos tosturi tuag at anifeiliaid. Gallai hyn gynnwys:
    - Darlun neu gerflun i'w arddangos yn yr ysgol
    - Blogio ar wefan yr ysgol
    - Perfformiad ar gyfer dosbarthiadau eraill/yn y gwasanaeth

Hawlfraint © RSPCA 2020 Cedwir pob hawl.

COMPASSIONATE CLASS

# Ai chi fydd RSPCA's Most Compassionate Class?

## ADNODDAU ERAILL I GYNORTHWYO DISGYBLION SYDD Â SEND

Mae'r gweithgareddau isod yn awgrymiadau i'ch helpu i addasu'r gweithgareddau 'Dosbarth Tosturiol i gynorthwyo ag anghenion eich disgyblion.

### TASG (TUDALEN PEDWAR)

Gwyliwch y fideo ysgogiad ac oedi bob tro y dangosir anifail gwahanol. Ar gyfer pob anifail, gofynnwch i'r disgyblion: Pa rai o'u hanghenion sy'n cael eu diwallu? Sut y gellid diwallu'r angen hwnnw ar gyfer anifail gwahanol?

Rhowch gopi o sleid wyth i'r disgyblion, sy'n dangos pryd mae pob un o'r pum angen lles yn cael eu diwallu, a rhowch gopi o sleid pump iddynt. Gofynnwch i'r disgyblion dorri'r delweddau allan ar sleid wyth a'u glynu o dan yr angen cyfatebol ar sleid pump.

### GÊM DYFALU ANIFEILIAID (TUDALEN SAITH)

**Cyfarwyddiadau**

1. Rhannwch y disgyblion yn barau, ac anogwch hwy i ddewis unrhyw anifail (neu gallech chi roi dewis o ddau anifail i bob disgybl). Yn eu pâr, dylent ofyn cwestiynau yn eu tro i ddyfalu beth yw anifail eu partner. Yna, dylent gyfnewid rolau
2. Os bydd ar ddisgyblion angen awgrymiadau, rhowch restr o gwestiynau iddynt i'w gofyn i'w partner, megis y rhai isod, a rhowch gopi iddynt o sleidiau chwech a saith i'w cynorthwyo â'u trafodaethau
3. Fel arall, chwaraewch gêm **Diwallu Anghenion** neu **Gwis y 5 Angen,** yn unigol neu fel dosbarth. Efallai bydd angen darllen y testun i'r disgyblion

Hawlfraint © RSPCA 2020 Cedwir pob hawl.

# Ai chi fydd RSPCA's Most Compassionate Class?

## GÊM DYFALU ANIFEILIAID (TUDALEN SAITH)

**Cwestiynau cynorthwyol:**

- A fyddwch chi'n teimlo'n unig ar eich pen eich hun?
- Ydych chi'n hoffi chwarae gemau neu â theganau?
- A oes arnoch chi angen llawer o le?
- A oes arnoch chi angen brechiadau?
- A fyddwch chi'n bwyta llysiau yn unig (llysysydd) neu a fyddwch chi'n bwyta cig neu wyau?
- A oes arnoch chi angen twneli tanddaearol?
- A ydy'ch dannedd yn tyfu'n gyflym?
- A wnaiff bwyta rhai mathau o fwydydd dynol eich gwneud chi'n sâl?

Hawlfraint © RSPCA 2020 Cedwir pob hawl.

# Ai chi fydd RSPCA's Most Compassionate Class?

## BETH NESAF?

Nawr eich bod wedi cwblhau'r gweithgaredd gosod y cefndir, y peth nesaf yw dewis dau weithgaredd Canfyddiad y gellir eu lawrlwytho o'r afan Compassionate Class: **rspca.org.uk/ccresources**. Yna gallech ddewis gweithgaredd Eiriolaeth a fydd yn darparu mynediad i'ch dosbarth at y gystadleuaeth Compassionate Class.

Hawlfraint © RSPCA 2020 Cedwir pob hawl.

RSPCA

COMPASSIONATE CLASS

# Gweithgareddau eiriolaeth

## BETH AM ROI CYNNIG AR Y GWEITHGAREDD ISOD SY’N HELPU ARCHWILIO’R CYSYNIAD O DOSTURI:

### BODAU DYNOL DEALLUS

**Beth sy’n hysbysu ein barnau, camsyniadau a chodau moesol o ran lles anifeiliaid? Bydd y gweithgaredd hwn yn annog plant i roi eu hunain yn ‘esgidiau’ creaduriaid eraill i annog tosturi ac empathi.**

- Plant yn gweithio mewn grwpiau bychan i ystyried un o’r cwestiynau isod. Gan ddefnyddio eu syniadau, mae plant yn creu cynrychiolaeth o’u hymateb i’r cwestiwn trwy waith celf, ysgrifennu dyddlyfr, llyfr sgrap, ffilm, animeiddiad, drama neu stori. Gallech ddechrau gyda’r cwestiynau mwy syml fel dosbarth ac adeiladu ar hyn.

**Fyddai’n well gennych chi...?**

- Fod yn gi neu gath?
- Ofalu am grocodeil wedi anafu neu ddal mosgitos?
- Gael adenydd neu gynffon?
- Fyw dan y dŵr neu yn y coed?

**A ydych yn cytuno neu’n anghytuno fod...?**

- Paun yn gwybod ei fod yn hardd
- Pob anifail yn chwarae
- Anifeiliaid yn gallu siarad
- Pob anifail yn breuddwydio
- Pobl yn anifeiliaid

**Sut mae eich atebon i’r cwestiynau hyn yn eich helpu i ddeall fod gan anifeiliaid syniadau, teimladau ac anghenion?**



Hawlfraint © RSPCA 2020 Cedwir pob hawl.

# Gweithgareddau eiriolaeth

## BODAU DYNOL DEALLUS: PARHAD...

**A fydda'n beth da neu ddrwg os...?**

- Fyddai morgrug yn bwyta sbwriel?
- Fyddai pobl yn dodwy o wyau?
- Fyddai mwncïod yn mynd i'r ysgol?
- Fyddai cewri yn cadw pobl fel anifeiliaid anwes?

**Sut mae eich atebion i'r cwestiynau hyn yn eich helpu i ddeall y cyfrifoldebau sydd gan fodau dynol i ddiogelu anifeiliaid rhag niwed a'u cadw'n hapus ac iach?**

**Pe gallent siarad...**

Dychmygwch y gallech gyfweld llew mewn sŵ a llew yn y gwyllt. Beth fyddai'r ddau yn ei ddweud am eu bywydau? Sut maent yn treulio eu hamser a beth maent yn ei fwyta?



Hawlfraint © RSPCA 2020 Cedwir pob hawl.